Making Connections
Creu Cysylltiadau

Canlyniad 1: Cynllun Gweithredu Thematig 2007-2010

1. Cyfeiriad Strategol a Meithrin Gallu

Mae'r adran hon yn y Cynllun Gweithredu Thematig yn ymwneud â phennu cyfeiriad strategol gwaith y consortiwm a meithrin gallu er mwyn cyflawni gwaith y consortiwm.

Byddwn yn sefydlu strwythur a phroses lywodraethu effeithiol ar gyfer gwella ansawdd yn barhaus i feithrin gallu ar draws y Consortiwm drwy ddatblygu gwaith y consortiwm sy'n arloesol, yn hyblyg ac yn ymatebol.

1.1 Byddwn yn sicrhau bod arweinyddiaeth a rheolaeth strategol effeithiol o waith y Consortiwm a fydd yn rhagweithiol, yn hyblyg ac yn ymatebol i newdidiadau addysgol ac Agenda'r Plant ac sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau allweddol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc mewn ysgolion a lleoliadau addysgol.
Cyfeiriad Strategol

1.2 Byddwn yn cefnogi adolygiad a datblygiad y gwasanaethau gwella ysgolion ar draws y consortiwm i feithrin gallu a datblygu partneriaethau i gefnogi gwella ysgolion a chynhwysiad ar draws y consortiwm.
Gwasanaethau Gwella Ysgolion

1.3 Byddwn yn ystyried dichonoldeb gwasanaeth Consortiwm ar gyfer gwasanaeth Adnoddau Dynol ysgolion ymroddedig a chaffael prydau ysgol ar y cyd.
Swyddogaethau Cefn Swyddfa

1.4 Byddwn yn ymchwilio i safonau ar draws y Consortiwm ymhellach, yn datblygu data perfformiad ysgolion, yn meincnodi, yn rhannu data cyllid ac yn adolygu'r posibilrwydd o sefydlu uned ddata'r Consortiwm.
Gwasanaethau Data

2. Datblygu'r Gweithlu

Mae'r adran hon yn y Cynllun Gweithredu Thematig yn ymwneud â datblygu adnoddau dynol ar draws y Consortiwm: gwasanaethau cynghori, arwain ysgolion, datblygiad proffesiynol, ailfodelu'r gweithlu a rheoli perfformiad.

Byddwn yn ceisio datblygu'r gweithlu ar draws y Consortiwm; personél ysgolion, personél awdurdod lleol a phersonél sy'n ymwneud â gwaith y consortiwm drwy gyfleoedd datblygiad proffesiynol a rheoli perfformiad sy'n seiliedig ar godi safonau cyrhaeddiad a chyflawniad yr holl blant a phobl ifanc.

2.1 Byddwn yn datblygu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon, arweinwyr canol a phenaethiaid drwy gyfleoedd rhwydweithio, cyrsiau byr, hyfforddiant achrededig a rheoli perfformiad.
Penaethiaid ac Athrawon

2.2 Byddwn yn datblygu cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu a hyfforddwyr dysgu drwy gyrsiau byr, rhaglenni hyfforddi ac asesu achrededig ar gyfer statws proffesiynol cenedlaethol.
Staff Cefnogi

2.3 Byddwn yn datblygu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff sy'n gweithio yn yr awdurdod lleol ac yng nghyd-destun gwella ysgolion y consortiwm drwy gyfleoedd rhwydweithio, cyrsiau byr, hyfforddiant achrededig a phennu safonau ar gyfer gweithwyr proffesiynol gwella ysgolion y Consortiwm y cytunwyd arnynt.
Staff Ymgynghorol a Gwella Ysgolion yr Awdurdod Lleol

3. Cyngor, Cefnogaeth a Her

Mae'r adran hon yn y Cynllun Gweithredu Thematig yn ymwneud â'r Cyfnod Sylfaen, Llwybrau Dysgu 14-19, gorchmynion Cwricwlwm 2008, Cynllunio Pontio, Ysgolion yn eu Cymunedau, Cynhwysiad ac AAA, Agenda'r Plant, Gwasanaethau Cerdd ac Addysg Awyr Agored

Byddwn yn darparu cyngor, cefnogaeth a her i ysgolion ac Awdurdodau Lleol mewn meysydd y cytunwyd arnynt i godi safonau, noddi arloesedd a sicrhau newid trefniadol

3.1 Byddwn yn rhannu gwybodaeth am ddatblygu Ysgolion yn eu Cymunedau ar draws y Consortiwm ac yn ymchwilio i brosiectau arloesol mewn mannau eraill. Byddwn hefyd yn rhoi strategaeth ar waith sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o Ysgolion yn eu Cymunedau ac yn hybu eu datblygiad.

Ysgolion yn eu Cymunedau

3.2 Byddwn yn rhannu arfer, yn datblygu atebion a rennir ac yn meithrin gallu i ymateb i Agenda'r Plant.

Agenda'r Plant

3.3 Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i gyflwyno datblygiad proffesiynol a chefnogi'r Cyfnod Sylfaen.

Cyfnod Sylfaen

3.4 Byddwn yn gweithio fel Consortiwm i fynd i'r afael ag anghenion datblygiad proffesiynol sy'n ymwneud â gofynion y cwricwlwm newydd gan gynnwys y pynciau Sylfaen. Byddwn hefyd yn gweithredu ar yr ymchwil a gynhaliwyd ar safonau ar draws y Consortiwm i gael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion mewn pynciau a dargedwyd ym mhob cyfnod allweddol.

Cwricwlwm Newydd

3.5 Byddwn yn rhannu gwybodaeth am roi'r Cynlluniau Pontio Statudol ar waith, sefydlu systemau a phrotocolau i fynd i'r afael â materion o weithio ar draws ffiniau, a chydweithio i ddatblygu'r fframwaith sgiliau allweddol o ran pontio rhwng cyfnod allweddol 2 – 3.

Pontio

3.6 Byddwn yn rhannu gwybodaeth am sgiliau allweddol a'r Craidd Dysgu, ac yn cyflwyno rhaglen datblygiad proffesiynol achrededig ar gyfer Hyfforddwyr Dysgu.

Addysg 14-19

3.7 Byddwn yn mynd i'r afael â sawl rhwystr/materion ffiniol sy'n effeithio ar blant ag anghenion addysgol arbennig. Byddwn hefyd yn datblygu ymagweddau ar y cyd mewn meysydd allweddol, ac yn rhannu gwybodaeth am ymagweddau cyfredol.

Cynhwysiad/ AAA

3.8 Byddwn yn cydlynu monitro a gwerthuso adnoddau Grant RHAGORI.

RHAGORI

3.9 Byddwn yn cefnogi rhwydweithio ar Addysg Awyr Agored ar draws awdurdodau, yn lledaenu arweiniad cenedlaethol newydd, yn cydlynu hyfforddiant ac yn monitro ansawdd a diogelwch.

Addysg Awyr Agored

3.10 Byddwn yn cydweithio ar draws Awdurdodau i ddarparu rhaglenni DPP ar y cyd, gan wella cyfleoedd i berfformio, a hwyluso gwerthusiad cyfoedion yn y Gwasanaethau Cerdd.

Gwasanaethau Cerdd